**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1452
Ein cyf/ LN/10326/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref 2024 yn gofyn am fanylion yr amserlen ar gyfer adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion, ac am wybodaeth ynghylch awdurdodau lleol yng Nghymru sydd eisoes yn cynnig diwrnodau heb gig.

Ar 17 Medi, yn ystod fy Natganiad Llafar ar Brydau Ysgol am ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd, manylais ar yr amserlen i adolygu'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion. Mae'r trawsgrifiad o'r datganiad i'w weld yma: Y Cyfarfod Llawn: 17/09/2024 - Senedd Cymru. I grynhoi, eglurais fod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynllunio ar gyfer gwanwyn 2025 gyda'r bwriad o osod y Rheoliadau diwygiedig gerbron y Senedd ym mis Ionawr 2026.

Ar wahân i hynny, mae gan awdurdodau lleol ac ysgolion ddisgresiwn i gynllunio eu bwydlenni eu hunain ac fe'u hanogir i gydweithio â phartneriaid, rhieni a dysgwyr i sicrhau eu bod yn fwydlenni apelgar a chynhwysol. a'u bod hefyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau bwyta'n iach. Mae bwydlenni ysgol ar gael ar wefannau awdurdodau lleol, a gellir eu defnyddio i nodi diwrnodau di-gig. Os yw'n ddefnyddiol fel enghraifft, mae gan Gyngor Caerdydd ddydd Llun di-gig - gellir dod o hyd i'r fwydlen ar gyfer ysgolion cynradd yma: Bwydlen Ysgol Gynradd

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.